



Cyngor Dinas Casnewydd Polisi Rheoli Risg 2020-22

Polisi Rheoli Risg Cyngor Dinas Casnewydd (2020-22)

Cyflwyniad

Mae Cyngor Dinas Casnewydd (CDC) yn darparu mwy na 800 o wasanaethau statudol ac anstatudol i drigolion, busnesau a defnyddwyr gwasanaeth eraill. Mae'r Cyngor yn wynebu llawer o heriau a bygythiadau cymhleth ac eang eu cwmpas a allai ein hatal rhag darparu'r gwasanaethau hyn yn effeithiol. Mae'r Cynllun Corfforaethol 2017-22 wedi nodi 4 Amcan Lles a 4 Thema Gorfforaethol a fydd yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei genhadaeth o 'Wella Bywydau Pobl'. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn a'i wasanaethau bydd angen i'r Cyngor gymryd cyfleoedd a risgiau a reolir yn dda yn y penderfyniadau a wneir ar bob lefel o'r sefydliad.

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys CDC, feddwl am effeithiau hirdymor ein penderfyniadau. Nod y Ddeddf yw gwella lles economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru drwy ddatblygu cynaliadawy. I wneud hyn, mae'n ofynnol i Gyngor Casnewydd osod a chyhoeddi Amcanion Lles sy'n sicrhau ein bod yn cyfrannu cymaint â phosibl at bob un o'r nodau lles ac yn cymryd camau rhesymol i gyflawni'r amcanion hyn. Hefyd, yn y penderfyniadau a wnawn mae'n ofynnol i ni ystyried y 5 egwyddor ffordd o weithio.



Hirdymor



Integreiddio



Cynnwys Pobl




Cydweithio



Atal

Fframwaith Integredig Cynllunio, Perfformiad a Rheoli Risg

Mae'r Fframwaith Integredig Cynllunio, Perfformiad a Rheoli Risg yn cydnabod er mwyn cyflawni ein hamcanion, mae angen diwylliant arnom a all gynllunio'n effeithiol, dangos canlyniadau clir sydd o fudd i'n rhanddeiliaid, a bod yn wydn hefyd o ran y cyfleoedd a'r risgiau yr ydym yn dod ar eu traws. Mae'r 3 colofn hyn o gynllunio, perfformiad a risg yn hanfodol a dylid eu plethu i mewn i'n penderfyniadau ar bob lefel o'r sefydliad. Mae'r diagram isod yn nodi'r lefelau strategol a gweithredol allweddol yng Nghyngor Casnewydd.



Beth yw rheoli risg?

Yn syml, mae risg yn fynegiant o ansicrwydd ac mae'n ymwneud â thebygolrwydd digwyddiad (tebygolrwydd) a'i effaith a allai fod yn gyfleoedd ar gyfer buddion neu fygythiadau i lwyddiant. Mae risg yn rhan o bopeth a wnawn ac mae'n bwysig bod y Cyngor yn ymgorffori prosesau rheoli risg da yn ein busnes bob dydd ac yn y penderfyniadau a wnawn.

Mae rheoli prosesau risg yn effeithiol yn galluogi'r Cyngor i ddiogelu yn erbyn bygythiadau posibl a manteisio ar gyfleoedd i wella gwasanaethau a darparu gwell gwerth am arian.

Datganiad Awydd Risg

Y Cabinet sy'n gyfrifol am bennu a monitro awydd risg y sefydliad. Mae Datganiad Awydd Risg y Cyngor yn adlewyrchu'r swm a'r math o risg y mae'n barod i'w geisio, ei dderbyn a'i oddef wrth fynd ar drywydd ei amcanion hirdymor. Mae'r Datganiad Awydd Risg yn cael ei gefnogi'n llawn gan Uwch Dîm Arwain a Thîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor a fydd yn ei gynnwys ym mhob rhan o'r sefydliad.

Mae Cabinet y Cyngor yn annog y Cyngor i gymryd risgiau 'wedi'u rheoli'n dda', manteisio ar gyfleoedd newydd a dulliau arloesol sy'n galluogi'r sefydliad i gyflawni ei amcanion ar yr amod ei fod o fewn yr ystod goddefiant risg y cytunwyd arni. Gyda'r cyfleoedd a'r risgiau sy'n eu cyflwyno eu hunain bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i egwyddorion lles hirdymor, cydweithio, atal, integreiddio ac ymwneud. Ceir crynodeb o ddull y Cyngor o weithredu a'i awydd am risg isod:

Strategol / Polisi

Wrth fynd ar drywydd ei amcanion strategol, bydd yn rhaid i'r Cabinet a'r swyddogion gymryd risgiau 'wedi'u rheoli'n dda' lle mae tystiolaeth a chyfle clir i gefnogi'r rhain. Ond mae'n raid i'r sefydliad hefyd ddiogelu ei weithgareddau a'i werthoedd craidd a lle mae risg i ddarparu'r gwasanaethau hyn, bydd yn cymryd ymagwedd bwylllog gan gydnabod y risg i enw da'r Cyngor.

Gweithredol / Parhad Busnes

Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd ddyletswydd i gynnal a darparu ei wasanaethau i'w holl drigolion, busnesau ac ymwelwyr sy'n ei ddefnyddio. Bydd y Cabinet, swyddogion a'n partneriaid yn cymryd camau i geisio atal digwyddiadau yn y dyfodol fel colli systemau TG critigol, tanau, digwyddiadau lleol/rhanbarthol a chenedlaethol a digwyddiadau eraill yn digwydd ac i leihau effaith amharu ar ein gwasanaethau critigol a rheng flaen.

Ariannol

Mae gwasanaethau a gweithgareddau'r Cyngor yn gweithredu mewn cyfnod anodd lle mae'n rhaid rheoli cyllidebau'n dda. Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd ddyletswydd i ddiogelu pwrs y wlad a bydd yn sicrhau bod ei reolaethau yn parhau i fod yn effeithiol wrth reoli a diogelu ei gyllid rhag camberchnogi, camreoli, gwneud penderfyniadau gwael, twyll a llwgrwobrwyo.

Bydd y Cyngor, lle bo'n briodol ac yn seiliedig ar ddadansoddiad cadarn (o fewn fframweithiau a gytunwyd) byddwn yn ceisio achub ar gyfleoedd i ymgymryd â buddsoddiadau cyfalaf/masnachol er mwyn cynorthwyo gydag adfywio neu greu incwm i'r Cyngor, a allai ddiogelu gwasanaethau. Yn ei weithgareddau buddsoddi bydd y Cyngor yn taro cydbwysedd priodol rhwng risg a dychwelyd, gan leihau'r risg o achosi colledion. Bydd yn buddsoddi ei chronfa'n ddarbodus ac yn ystyried diogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd enillion neu gynnyrch uchaf.

Llywodraethu / Cyfreithiol / Rheoleiddiol

Ymgymerir â llawer o wasanaethau a gweithgareddau'r Cyngor yn unol â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol. Gall methu â chadw at ofynion cyfreithiol/rheoliadol arwain at niwed ariannol ac enw da i'r Cyngor. Ychydig o oddefgarwch sydd gan y Cyngor tuag at y risgiau hyn a bydd yn sicrhau y bydd yr holl weithgareddau'n cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol angenrheidiol.

O ran diogelu plant ac oedolion sydd yn ein gofal neu y byddwn yn dod i gysylltiad â hwy, mae gan y Cyngor awydd isel iawn am y methiant yn ein rheolaethau a byddwn yn sicrhau bod cynrychiolwyr y cyngor a thrydydd partïon sy'n gweithredu ar ein rhan yn cadw at y gofynion hyn.

Iechyd a Diogelwch

Mae gan y Cabinet a swyddogion oddefgarwch isel tuag at weithgareddau a allai niweidio neu achosi anaf (lles corfforol a meddyliol) i'n staff, ac unrhyw un sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Mae'n ddyletswydd ar holl weithwyr a chynrychiolwyr y Cyngor i sicrhau bod gwasanaethau a gweithgareddau wedi ystyried yn llawn ac wedi cymryd mesurau priodol i gydymffurfio â'r deddfwriaeth iechyd a diogelwch angenrheidiol.

Enw da

Er mwyn cyflawni cynllun corfforaethol y cyngor a'n dyletswyddau statudol Rydym yn dibynnu ar ein henw da i ddylanwadu a sicrhau ymgysylltiad ein hetholwyr, busnesau, partneriaid (preifat, cyhoeddus ac nid er elw) a rhanddeiliaid eraill. Mae'r penderfyniadau a wneir gan y Cyngor, mae'r Cabinet a'r swyddogion wedi'u rhwymo gan ei Chyfansoddiad, ei Gwerthoedd Corfforaethol a deddfwriaeth a rheoliadau lle y bo'n berthnasol. Byddwn yn cadw goddefiant risg isel ar y cyfan o ran ein henw da lle gallai ein gwasanaethau gael effaith ddifrifol ar ein rhanddeiliaid. Fodd bynnag, rydym yn barod i gymryd cyfleoedd a all gael eu gwrthwynebu gan rai o'n rhanddeiliaid lle mae tystiolaeth foddhaol a digonol sy'n dangos y manteision hirdymor i'r cyngor a'i rhanddeiliaid.

Cyflawni Rhaglen/Prosiect

Wrth fynd ar drywydd ein hamcanion sefydliadol rydym yn ymrwymedig i achub ar y cyfleoedd lle bydd arloesedd a newid trawsnewidiol yn darparu manteision i effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau a gall ddarparu gwerth am arian. Trwy gyflawni rhaglenni a phrosiectau bydd y Cyngor yn sicrhau bod cyfleoedd a risgiau'n cael eu hystyried yn llawn a thystiolaeth i gefnogi'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel o'r sefydliad.

Llywodraethu a Rheoli Risg

Mae pawb yng Nghyngor Dinas Casnewydd yn gyfrifol am sicrhau bod risgiau a chyfleoedd yn cael eu nodi a'u rheoli ar bob lefel llywodraethu. Mae'r tabl isod yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau swyddogaethau strategol a gweithredol ar draws y Cyngor. Yn ogystal, a lle y bo'n berthnasol, mae Cyfansoddiad y Cyngor hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y gwahanol fyrddau llywodraethu, rolau a chyfrifoldebau Aelodau Etholedig a swyddogion.

Rôl y Bwrdd/Swyddog Llywodraethu	Disgrifiad o'r Rôl a'r Cyfrifoldebau
Cabinet	<p>Mae Cabinet (Gweithredol) y Cyngor yn gyfrifol am weithredu polisi'r Cyngor yn effeithiol ac am ddarparu gwasanaethau yn unol â'r polisiau hynny a'r gyllideb. Fel rhan o'i rôl mae'r Cabinet yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cymeradwyo'r Polisi a'r gweithdrefnau Rheoli Risg gan gynnwys gosod a chytuno ar yr Awydd Risg ar gyfer y Cyngor;• Adolygu'r risgiau allweddol i'r sefydliad a'r rheolaethau sydd ar waith i roi sicrwydd i rhanddeiliaid bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol;• Adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol bob chwarter mae gweithdrefnau parhaus ar waith i fonitro'r broses o reoli risgiau sylweddol;• Sicrhau bod pob penderfyniad Strategol wedi ystyried y cyfleoedd a'r risgiau'n llawn, ac wedi ymgynghori yn eu cylch.
Aelodau'r Cabinet	<p>Mae swyddogaethau gweithredol sydd wedi'u dirprwyo i Aelodau Cabinet unigol mewn perthynas â'u portffolios yn gyfrifol am sicrhau bod rheoli risg wedi'i wreiddio mewn unrhyw benderfyniad polisi gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• Monitro ac adolygu risgiau a'r rheolaethau sydd ar waith sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau a gynhwysir o fewn eu portffolio;• Sicrhau bod penderfyniadau aelodau'r Cabinet wedi ystyried y cyfleoedd a'r risgiau'n llawn ac wedi ymgynghori arnynt.

	<ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo a sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o'r gweithgareddau a gynhwysir yn eu portffolio.
Pwyllgor Archwilio	<p>Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am adolygu a monitro effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, bydd y Pwyllgor Archwilio yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cael sicrwydd bod rheoli risg yn cael ei wneud yn briodol ar bob lefel yn y sefydliad; • Derbyn a darparu gwaith craffu ar bolisi rheoli risg a Datganiad Awydd Risg y Cyngor; • Derbyn a darparu gwaith craffu ar y trefniadau rheoli risg a geir mewn adroddiadau monitro chwarterol ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.
Pwyllgorau Craffu	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyried risgiau a fydd yn effeithio ar berfformiad a darpariaeth gwasanaethau yn y Cyngor. • Hyrwyddo'r defnydd o reoli risg i lywio penderfyniadau strategol effeithiol yn y Cyngor.
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi, monitro, adrodd a dwysáu'r risgiau a fydd yn effeithio ar y broses o gyflawni'r Cynllun Lles a'i Amcanion Lles. • Datblygu dull integredig o reoli risg a deall a rheoli risgiau cyffredin ar draws y sefydliadau sy'n ymwneud â'r BGC a'r rhanbarth ehangach.
Uwch Dîm Arwain	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu'r polisi rheoli risg yn rheolaidd. • Cefnogi a chynghori'r Cabinet wrth ymwreiddio archwaeth risg ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd i'r gweithgareddau gwneud penderfyniadau. • Monitro'r risgiau allweddol ar draws y sefydliad gan eu hystyried yn erbyn amcanion strategol y sefydliad. • Sicrhau bod y risgiau uchaf yn cael yr adnoddau wedi'u dyrannu iddynt gael sylw effeithiol. • Yn unol â'r adroddiad ar y Polisi Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Risg ar risgiau a rheolaethau allweddol. • Creu amgylchedd yn y sefydliad lle caiff rheoli risg ei hyrwyddo a'i hwyluso.
Tîm Rheoli Corfforaethol	<ul style="list-style-type: none"> • Ar gyfer yr ardaloedd maent yn gyfrifol am sicrhau bod y broses rheoli risg a'r gweithdrefnau adrodd risg yn cael eu cwblhau yn ôl y Polisi Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Risg. • Monitro'r risgiau allweddol mewn meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt.
Timau Rheoli Gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Rheoli risg yn effeithiol yn eu maes cyfrifoldeb. • Sicrhau bod y broses rheoli risg a gweithdrefnau adrodd risg yn cael eu cwblhau yn dilyn polisi rheoli risg Cyngor Dinas Casnewydd. • Cwblhau, olrhain a monitro cynnydd y gofrestr risg gwasanaeth. • Uwchgyfeirio risgiau i'r Uwch Dîm Arwain eu hystyried a chynnwys ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.
Partner Busnes Perfformiad ac Ymchwil	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu'r Polisi, Gweithdrefnau a Chanllawiau Rheoli Risg. • Hyrwyddo a chefnogi'r Cyngor i ymgorffori rheoli risg yng ngweithgareddau'r Cyngor. • Cynorthwyo gwasanaethau wrth nodi, asesu ac adrodd ar risg yn y Cyngor. • Drafftio adroddiadau risg corfforaethol chwarterol i'r Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio.
Perchenogion Risg	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrifol am reoli a monitro risg benodol (neilltuir perchennog risg i bob risg yn y gofrestr risg gorfforaethol). • Sicrhau bod adnoddau a phwysigrwydd priodol yn cael eu dyrannu i'r risgiau y maent yn berchen arnynt. • Cadarnhau bodolaeth ac effeithiolrwydd y camau sy'n bodoli eisoes a sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu pellach yn cael eu gweithredu. • Rhoi sicrwydd bod y risgiau y maent yn berchen arnynt yn cael eu rheoli'n effeithiol. • Uwchgyfeirio risgiau
Perchenogion Gweithredu ar Risg	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrifol am ddiweddarau lliniaru camau risg bob chwarter. • Cyfrifol am adrodd ar faterion perfformiad i Berchenogion Risg wrth gyflawni camau a allai effeithio ar y risg.
Archwilio Mewnol	<ul style="list-style-type: none"> • Creu cynllun archwilio sy'n cyd-fynd â'r risgiau mwyaf. • Herio ac adolygu effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg. • Adolygiad cynnydd o'r camau gweithredu a gynlluniwyd.

	<ul style="list-style-type: none"> • Dilysu a phrofi'r rheolaethau presennol.
Uned Argyfyngau Sifil	<ul style="list-style-type: none"> • Fel rhan o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, rôl fforwm lleol Cymru Gydnerth Gwent i nodi, monitro ac adrodd am risgiau a allai effeithio ar gymunedau, trigolion a busnesau ledled Gwent ac yn fwy penodol Casnewydd. • I roi cynlluniau argyfwng ar waith, trefniadau rheoli parhad busnes pe bai argyfwng a/neu amhariad ar wasanaethau'r Cyngor • Sicrhau bod trefniadau ar waith hysbysu, cynghori ac arwain y cyhoedd, trigolion, busnesau a mudiadau gwirfoddol ynghylch rheoli parhad busnes.
Tîm Iechyd a Diogelwch	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau iechyd a lles gweithwyr cyflogedig, gwirfoddolwyr a dinasyddion yn cael eu diogelu yn unol â Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor a gweithdrefnau ategol. • Sicrhau bod dyletswyddau'r Cyngor yn cael eu cyflawni yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelwch, rheoleiddio ac arfer gorau • Nodi, asesu, monitro, adrodd a dwysáu iechyd ac digwyddiadau diogelwch, damweiniau ar draws y sefydliad • I hyrwyddo, cynghori a hyfforddi staff i sicrhau bod iechyd & Mae deddfwriaeth diogelwch, rheoleiddio ac arfer gorau yn cael eu cymhwyso ar draws yr holl weithgareddau a gyflawnir gan y Cyngor.
Holl Gyflogeion	<ul style="list-style-type: none"> • Mae pob gweithiwr i reoli risgiau a chyfleodd o ddydd i ddydd yn effeithiol ac i adrodd am unrhyw bryderon neu risgiau a nodwyd i'w rheolwyr llinell. • Os nad yw adrodd i reolwr llinell yn briodol, mae gan y Cyngor broses Chwythu'r Chwiban sydd ar gael i'r holl staff drwy'r fewnwyd.
Swyddfa Archwilio Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal asesiadau o berfformiad Cyngor Dinas Casnewydd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gweithdrefnau Rheoli Risg a chanllawiau ategol

Er mwyn cefnogi'r Polisi Rheoli Risg, mae gennym ddogfennau a dogfennau canllaw ategol i swyddogion eu defnyddio. Gellir eu lleoli ar dudalen Perfformiad a Risg y Cyngor ar y Fewnwyd.

Polisiau ategol eraill y Cyngor

- Polisi Rheoli Gwybodaeth a Risg
- Cynllun Rheoli Argyfyngau Corfforaethol
- Polisi Rheoli Parhad Busnes
- Polisi Iechyd, Diogelwch a Llesiant Corfforaethol
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Strategaeth Cyfalaf